# Y Cynllun Gweithredu

Nodau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin yw:

* Cynnal a chynyddu bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin drwy baratoi cynlluniau gweithredu unigol a'u rhoi ar waith gan ymdrin ag amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau dethol sy'n amlygu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol;

* Meithrin partneriaethau lleol effeithiol i gydgysylltu a sicrhau gweithredu ar fioamrywiaeth yn Sir Gaerfyrddin;

* Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd gwarchod a chynyddu bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin;

* Monitro'r camau a gymerwyd o ran cyrraedd targedau bioamrywiaeth lleol ac anfon adroddiadau am y camau hynny i gronfa ddata genedlaethol ar fioamrywiaeth.

Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar wahân wedi cael ei lunio ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a bydd y cynllun hwnnw yn cyfeirio at y rhan honno o Sir Gaerfyrddin sydd oddi mewn i'r parc cenedlaethol: www.breconbeacons.org
Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin ar gael yn yr adrannau cyfeirio ym mhrif lyfrgelloedd y sir, yn ogystal ag yn ysgolion uwchradd.

Mae'r daflen hon wedi ei llunio gan bartneriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin, gyda chymorth gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Am fwy o wybodaeth neu am gopi print bras, cysyllter â: Rosie Carmichael / Isabel Macho drwy ffonio 01267 224880. Mae'r daflen hon ar gael ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin: www.sirgar.gov.uk gwelech hefyd: www.ukbap.org.uk




Yn Sir Gaerfyrddin ceir tair o Gyforgorsydd ar dir isel sy'n dal i fod yn weddol ddidoriad. Ar dir sydd dan ddŵr a hynny dros filoedd o flynyddoedd, mae mawn yn ymgrynhoi ac mae ecosystem yn datblygu sy'n cynnal amrywiaeth o blanhigion a chreaduriaid di-asgwrn-cefn arbenigol. Mae'r Gors Goch, sef GNG sy'n cael ei rheoli gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn safle pwysig ar gyfer morgrug du y gors yn frin.

Carmarthenshire contains three relatively intact lowland raised bogs. On waterlogged ground, over thousands of years, peat accumulates developing an ecosystem that supports a range of specialised plants and invertebrates. Cors Goch, an NNR managed by the Wildlife Trust, is an important site for the rare black bog ant.

# The Action Plan

The Carmarthenshire LBAP aims to:

* Maintain and enhance the biodiversity of Carmarthenshire through the preparation and implementation of individual action plans, covering a range of selected habitats and species which reflect both national and local priorities;

* Develop effective local partnerships to co-ordinate and deliver biodiversity action in Carmarthenshire;

* Raise public awareness of the importance of conserving and enhancing Carmarthenshire's biodiversity;

* Monitor progress in achieving local biodiversity targets and to report on such progress to a national biodiversity database.

A separate Local Biodiversity Action Plan has been prepared for the Brecon Beacons National Park, and that will refer to that part of Carmarthenshire that lies within the national park: www.breconbeacons.org
The Carmarthenshire LBAP is available in the reference sections of the main county libraries, as well as in secondary schools.

Please contact Rosie Carmichael / Isabel Macho on 01267 224880 for more information, or a version of the text in large print. This leaflet is available on www.carmarthenshire.gov.uk see also www.ukbap.org.uk It has been prepared by the Carmarthenshire LBAP partnership with support from the Countryside Council for Wales.




Yn 2001 yr oedd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, ac eraill, wedi cynnal arolwg yn ardal Llanelli, er mwyn pwyso a mesur ansawdd y cynefinoedd a oedd ar gael yno ar gyfer llygod y dŵr. Mae'n well gan lygod y dŵr gyrsiau dŵr hirgul, sydd â thorlannau eithaf serth lle maent yn gallu cloddio eu rhwydwaith o dyllau. Mae cael llystyfiant ar y torlannau yn ffynhonnell fwyd ddigonol ar gyfer y llygoden hon sy'n bwyta diet llysfwytäol amrywiol.

In 2001 Environment Agency Wales, with others, surveyed the Llanelli area to assess the quality of habitat available for water voles. Water voles favour linear watercourses with fairly steep banks into which they dig their network of burrows. Bank-side vegetation provides ample food for its varied vegetarian diet.

# Beth ellwch chi eu wneud i helpu

yn y cartref
Adnabod ardaloedd bywyd gwyllt yn eich cymdogaeth chi a helpu i ennyn ymwybyddiaeth y cyhoedd o fioamrywiaeth. Creu llecyn bywyd gwyllt yn eich gardd, neu ymuno â grŵp gwarchod lleol a chael cyfle i wneud gwaith ymarferol.

ar y tir
Cyfuno bioamrywiaeth â'r gwaith o reoli eich tir, ystyried ffyrdd newydd o reoli parciau, llecynnau agored, mynwentydd a thir amaeth fel y gall bioamrywiaeth ffynnu. Gofyn am ragor o wybodaeth.

yn yr ysgol
Sicrhau bod ysgolion a cholegau yn chwarae eu rhan drwy ennyn ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a gwarchod bywyd gwyllt. Mae creu gardd bywyd gwyllt ar dir ein hysgolion yn ffordd wych o gychwyn ar y gwaith hwn, ac ar ben hynny gellir cael cefnogaeth i wneud hynny drwy'r cynllun Eco-ysgolion sy'n cael ei hyrwyddo gan y Cyngor.

yn y gweithle
Gwneud bioamrywiaeth yn fater sy'n derbyn sylw yn y gweithle, datblygu arferion da, a chael diwydiant a masnach i ymwneud â gwarchod bywyd gwyllt.

Gallwn ni i gyd wneud ein rhan i sicrhau bod bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin ar gael i genedlaethau'r dyfodol. Mae llawer o'r partneriaid yn croesawu ymwelwyr ac yn trefnu ymweliadau addysgol.



Partneriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin :
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Cymdeithas Tirfeddianwyr a Pherchnogion Busnes
- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
- Yr Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig
- Undeb Amaethwyr Cymru • Gwarchod Glöynnod Byw
- Y Comisiwn Coedwigaeth • NFU Cymru ◆ Wales
- Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
- Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru
- Awdurdod Datblygu Cymru
- Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir • Parc Arfordirol y Mileniwm
- Grŵp Awdurdodau Perthnasol Darpar Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Caerfyrddin a'i Aberoedd

# What you can do to help

at home
Recognise wildlife areas in your locality and help to raise public awareness of biodiversity. Create a wildlife area in your garden or join a local conservation group and get involved in some practical work.

on the land
Integrate biodiversity with the management of your land, consider new ways of managing parks, open spaces, church yards and farmland so that biodiversity can thrive. Seek further advice

in school
Ensure schools and colleges play their part in raising awareness of biodiversity and conserving wildlife. Wildlife gardening in school grounds is a great place to start, and this is supported by the Eco Schools scheme promoted by the Council - 100 schools are registered with this initiative.

in the work place
Make biodiversity an issue in the work place, develop best practice, involve industry and commerce in the conservation of wildlife.

We can all help ensure the survival of Carmarthenshire's biodiversity. Several of the partners welcome visitors and run educational visits.



The Carmarthenshire Local Biodiversity Action Plan Partnership :
- Carmarthenshire County Council
- Countryside Council for Wales
- Country Landowners and Business Association
- Environment Agency Wales
- Agricultural and Rural Affairs Department
- Farmers' Union of Wales • Butterfly Conservation Wales
- Forestry Commission • NFU Cymru ◆ Wales
- National Botanic Garden of Wales
- Royal Society for the Protection of Birds
- The National Trust
- The Wildlife Trust for South and West Wales
- Welsh Development Agency
- Wildfowl and Wetlands Trust • Millennium Coastal Park
- Carmarthen Bay and Estuaries European Marine Site Relevant Authorities Group

BIOAMRYWIAETH
HOLL GYFOETH BYWYD
BIODIVERSITY
THE VARIETY OF LIFE

# BIOAMRYWIAETH YN SIR GÂR



# BIODIVERSITY IN CARMARTHENSHIRE